CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 20 TACHWEDD 2012

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W T Owen

Cynghorwyr
W R Owen, I C Thomas, H W Roberts, A Y Williams, M Thomas, G Thomas, W L Davies, A Hopcyn, E Lovgreen, D Jones, T Thomas

Siaradwr Gwadd : Heddwas Delyth Bryant – Heddlu Gogledd Cymru

Pawb yn ymwybodol o'r newidiadau yn yr Heddlu – mwy o PCSO's yn y dref bellach
Mae pawb yn helpu ardaeloedd ei gilydd felly dylia bod na wastad rhywun ar gael "school engagement plan"- sef bod yn linc cyswllt efo'r ysgol, trafod efo'r athrawon a'r plant er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r pethau syml fel peidio gadael ty heb ddweud lle da chi yn mynd, ymwybyddiaeth iechyd a diolgelwch syml yn enwedig adeg Tan gwyllt ayyb. Mae'r cyswllt yma yn un llwyddiannus tu hwnt.

Cyllun tylluan – online watch !! rhad ac am ddim. Helpu lleihau torgyfraeth System tebyg i Neighbourhood Watch cynt . Annog chi gyd i fod yn rhan ohonno . ffordd hawdd i'r cyhoedd helpu'r Heddlu

O rwan tan cyfnod y Nadolig – edrych ar gynllun trafnidiaeth allan o'r dre a goryrru, gwaith yn cael ei wneud yn cydweithio efo'r Cyngor Sir a Trunk Agency

Mae'r PCSO's yn mynd i wneud cynllun ei hunain i edrych ar wahanol elfennau – dim yswiriant ayyb .

Cynllun – targedu "shoplifting" a ceisio stopio hyn ddigwydd yn yn lle cyntaf, amrywiaeth o heddweision mewn gwisg neu ddillad eu hunain . Llynedd roedd hwn yn gynllun da iawn ac felly am ei ail rhedeg eleni

"Regular offenders " – ceisio cael cymaint o dystiolaeth a phosib er mwyn cael "anti social behaviour order " yn eu herbyn

Oes posib i chi gefnogi'r ffaith bod angen gwell goleuadau gyda'r nos?
Oes

Cynt mi roedd heddweision yn sefyll ar waelod Stryd Llyn, ac yn monitro sefyllfa traffig – oes posib cael nhw yn nol?
Anhebygol , ond mi wnai ofyn os oes posib i Gyngor Gwynedd gael y wardeiniaid traffig yna i edrych ar y sefyllfa

Be oeddach chi yn nodi am goryrru ar y ffrydd allan o'r dref?
Ffordd y Gogledd o dan Trunk Agency , Ffrodd Bethel o dan Cyngor Gwynedd a'r "mean speed" yn yr arolwg olaf oedd 32.1. PCSO's yn ceisio creu rhaglen fydd yn gwneud "spot checks " ar nifer o wahanol elfennau

Dau ddigwyddiad wythnos diwethaf – 3 car yn goryrru i fynny New Street a gorfod brecio yn sydyn, ac hefyd dim yn unig trigolion Pool Lane sydd yn troi lawr , a does na ddim arwyddion i rybuddo'r cyhoedd bod trigolion yn cael troi lawr
Am gysylltu efo Cyngor Gwynedd i dynnu sylw

A fyddai'r Hedldu yn cefnogi ein cais ni i geisio newid y Speedlimit i'r dre i 20 milltir yr awr
Wnai ofyn wrth yr Arolygydd

Oes posib i chi ofyn i'r Cyngor Sir newid y man arolwg i hanner ffordd yn New Street yn hytrach nag yn y man uchaf ?
Fodlon gofyn

Llongyfarch yr Heddlu am yr holl waith gwych sydd wedi cael ei wneud ar yr ochr cyffuriau yn diweddar . Mae sawl yn anhapus i ffonio'r heddlu efo gwybodaeth
Annog pobl i ffonio Crimestoppers sydd yn hollol gyfrinachol

Oes na rywbeth fedrith yr Heddlu neud i helpu sefyllfa goryrru yn Twthill ger yr Ysgol ?
Wnai ofyn i'r PCSO's priodol drafod efo'r Ysgol

Gai ofyn ichi ddod nol yn flynyddol ?
Hapus i ddod yn nol

Angen edrych ar 20 milltir yr awr yr holl ffordd i gyffyniau'r dref gan fod gymaint o ysgolion

1.Ymddiheuriadau

Cyng H Edwards , Cyng E Hughes, Cyng A Kirk

2.Cyhoeddiadau'r Maer

9 Tachwedd -Cyfarfod camu i'r copa
11 Tachwedd – Sul Y Cofio – diolch i bawb am y trefniadau a phawb cymerodd ran
13 Tachwedd – ymweld a stondin Alzeimers yn Tesco

Pawb yn meddwl am gyflwr yr hogyn bach oedd yn y ddamwain Dydd Gwener mae'r dyddiau nesaf yn holl bwysig

3.Datgan Buddiant Personol

Cynllunio – W T Owen
Cynllunio eitem 6 (3) – I C Thomas, E Lovgreen , W L Davies
PEG – I C Thomas

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i) Cyngor, 6 Tachwedd 2012

Penderfynwyd

Derbyn fel rhai cywir gan ofyn os gaif enwau'r is bwyllgorau adloniant gael eu cofnodi

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y Ceisiadau Cynllunio

Penderfynwyd

Anfon rhestr o argymhellion i'r awdurdod priodol

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu heblaw am gyfraniad i gyfeillion Llys yr Eifl gofyn am fwy o wybodaeth gan bod pobl lleol yn cael eu gwrthod

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Cyngor Gwynedd

i) ymateb Pont Saint
ii) ymateb Goryrru

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a'r Cyng H Roberts a'r clerc i gyd lynnu llythyr yn crynhoi yr holl sylwadau diweddar

10.PEG

Adroddiad Blynyddol
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

11.Y Llais

Tynnu sylw i ddogfennau da
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

12.Llywodraeth Cymru

Parthed Cadwraeth Morol
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

13.Rhybudd o Gynnig Cyng. D. Jones

Parthed Segontium
Penderfynwyd
Cefnogi'r rhybudd

14.Gwasanaeth Tan

Ymgynghoriad ar amcanion gwella a chynlluniau ar gyfer y dyfodol
Penderfynwyd
Y pwyllgor yngynghorol i gyfarfod cyn y cyfarfod nesaf ynghyd a swyddogion a cynrychiolydd or undeb yna ail drafod yn y cyfarfod nesaf

15.Cyngor Gwynedd

Ymgynghoriad Rheoli Dwr a Llifogydd
Penderfynwyd
Pwyllgor ymgynghorol i edrych ar hwn ac ymateb i'r cyfarfod nesaf

16.Heddlu Gogledd Cymru

Gwasanaeth Carolau - **NOS LUN 3YDD O RAGFYR**
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

17.Bwletin PEG, Ewrop + Busnes

i) Digwyddiad Cwrdd a'r prynwr Cyngor Gwynedd
ii) Cyfle tendro – Y Porth Ymgysylltu
iii) Ymgynghoriad i Gynllun Strategol Cyngor Gwynedd
iv) Llwyddo'r Llwyddiant – cyflawni gwir botensial eich busnes
v) Ymgynghoriad – Cynllun Datblygu Gwledig

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

18.E-bost Dewi Hughes

Par: defnyddio llun o ddarlun Myfanwy sydd yn eiddo'r Cyngor
Penderfynwyd
Caniatau

19.Brysgyllwr
Penderfynwyd
Hysbysebu gan gofyn am enwau pobl sydd a diddordeb cyn diwedd y flwyddyn er mwyn cyfweld ym Mis Ionawr

20.Galw Gwynedd

Adroddiad ar lafar gan Cyng. I. C. Thomas
Angen i bawb gysylltu efo Galw Gwynedd yn hytrach na ffonio Cynghorydd lleol – mae hyn yn creu audit trail sydd yn haws wedyn i Cyngor Gwynedd adolygu anghenion
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

21. 'National Grid' wedi ei symud o'r cyfarfod diwethaf
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

22.Cwestiynau
Dim

Gorffennodd y cyfarfod am 7.45

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....